

# Hawliau Tramwy Cyhoeddus

## Beth ydynt?



### Llwybrau Cyhoeddus

Gall cerddwyr ddefnyddio llwybrau cyhoeddus - ac mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a rhai sy'n gwthio pram neu goets. Fel gyda phob hawl tramwyo cyhoeddus mae gennych hefyd hawl i fynd â'ch ci, er bydd angen i chi ei gadw ar dennyn neu fel arall o dan reolaeth agos ar lwybrau ble mae da byw. Dylech ddisgwyl dod ar draws camfeydd ar lwybrau troed. Efallai na fydd unrhyw fodd arall arbennig i gŵn groesi wrth gamfeydd.

Nid oes hawl i ddefnyddio beic ar hyd llwybr troed cyhoeddus., er gall berchnogion tir unigol ganiatáu beicio ar hyd rhai llwybrau sydd yn llwybrau troed cyhoeddus. Nid oes hawl i farchogaeth ceffyl na gyrru cerbyd modur heb ganiatâd penodol perchennog y tir.

Dylech fod yn ofalus a gallu gwahaniaethu rhwng 'llwybrau troed cyhoeddus' a 'throedffyrdd'. Nid yw llwybrau ger ffyrdd cyhoeddus yn llwybrau troed cyhoeddus - byddai'n well cyfeirio atynt fel throedffyrdd neu yn syml pafinau. Nid yw'r throedffyrdd wedi eu dangos ar y map swyddogol o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae troedffordd mewn gwirionedd yn rhan o'r briffordd sydd wedi ei gosod ar wahân i gerddwyr. Dylech gysylltu â'r swyddfa briffyrdd leol briodol i gael cyngor am droedffyrdd..

Gallwch gymryd taith amgen fer o amgylch rhwystr anghyfreithlon, neu dynnu digon ohono er mwyn mynd heibio iddo (ond nid yw hyn yn ymestyn i'r hawl i gsrio e.e. pleiars i dorri weiren bigog).



### Llwybrau Ceffyl

Yn hanesyddol, mae llwybrau ceffyl wedi bod ar gael i gerddwyr ac i farchogion. Mae'r hawliau hyn hefyd yn cynnwys mulod ac asynnod ond nid er enghraifft lamas neu anifeiliaid eraill. Gall fod hawl hefyd ar rai llwybrau ceffyl i yrru anifeiliaid ar ei hyd.

Rhoddodd Deddf Cefn Gwlad 1968 hawl i feicwyr ddefnyddio llwybrau ceffyl. Er hynny, mae angen i feicwyr ildio lle i gerddwyr a marchogion ceffylau ar lwybrau ceffyl.

Nid oedd y Ddeddf Cefn Gwlad yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gadw'r llwybrau ceffylau i safon sy'n addas i feicwyr ac fe fydd cymaint na fydd yn addas yn benodol ar gyfer beicio hyd yn oed efallai i feiciau mynydd. Er hynny, mae'r tueddiad yn y blynyddoedd diwethaf i annog beicio yn golygu fod mwy o sylw yn cael ei roi i anghenion beicwyr - ar yr amod nad yw'r gwelliannau i feicwyr ddim yn anfanteisiol i dyweder marchogion ceffylau.

Cyfeirir weithiau at Llwybrau Ceffyl fel llwybrau marchog. Efallai y dewch ar draws y term 'llwybr cyhoeddus' sy'n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffyl.



## ‘Cilffyrdd Gyfyngedig’ a ‘Ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus’

‘Ffordd a Ddefnyddiwyd fel Llwybr Cyhoeddus’ (RUPP) oedd un o’r tri chategori gwreiddiol o lwybrau tramwy cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Roedd y term yn un braidd yn ddryslyd gan ei fod yn ymdrin ag amrywiaeth o lwybrau, yn aml gyda nodweddion lonydd glas oedd â hawliau neu ddim i gerbydau cyhoeddus yn ychwanegol â’r hawliau i gerddwyr a marchogion.

Yng Ngwynedd, yn dilyn cyngor cyfredol, cafodd y RUPP’s eu dynodi fel CRF’s neu CRB’s. Roedd y diffiniad a gafwyd fel:

- CRF - Cerbydion gyhoeddus neu ffordd drol, neu lôn las (heb fetel) a ddefnyddir yn bennaf fel llwybr troed.
- CRB - Cerbydion gyhoeddus neu ffordd drol, neu lôn las (heb fetel) a ddefnyddir yn bennaf fel llwybr ceffyl.

Mae gan bob awdurdod priffyrdd ddyletswydd i ail-ddosbarthu RUPP’s yn eu hardaloedd wedi pasio’r Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (fel a newidiwyd wedi hynny gan y Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981). Cynhaliodd Gwynedd waith ymchwil i ail-ddosbarthu un (o’r 90) RUPP’s. Roedd y gwaith ymchwil yma’n drylwyr. Y rhagdybiaeth yn y gyfraith yw bod y llwybr yn llwybr ceffyl oni bai y gellir dangos:

- fod hawliau cerbydol cyhoeddus yn bodoli (ac yn yr achos yma dylid ei dynodi fel Cilffordd sy’n agored i Bob Traffig);
- neu gellid dangos nad yw hawliau cerbydol cyhoeddus a llwybr ceffylau yn bodoli (ac yn yr achos yma dylid ei ddynodi fel llwybr troed cyhoeddus).

Yn yr achos o dan sylw, ar ôl dau ymchwiliad cyhoeddus rhoddwyd y statws olaf i’r llwybr. Daeth hi hefyd yn glir ei bod hi’n annhebygol, heb ymchwiliad cyhoeddus, y byddai’r holl wybodaeth oedd yn ofynnol i brofi’r statws yn cael ei dderbyn. Oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen ni wnaed ymdrechion eraill i ail-ddosbarthu’r RUPP’s yng Ngwynedd.

Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Gwynedd 2000 (fel a newidwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chefn Gwlad 2006) yn ymdrin â’r broblem o ddiffyg eglurder o’r hawliau ar hyd RUPP’s drwy ail-ddosbarthu yr holl RUPP’s oedd ar ôl fel ‘cilffyrdd cyfyngedig’. Mae gan y cyhoedd hawliau ar hyd ‘cilffordd gyfyngedig’ ar:

- droed
- gefn ceffyl
- tywys ceffyl gyda cherbydau sydd heb beiriant.

Mae hyn yn golygu y gallwch fynd a beic neu gerbyd sy’n cael ei dynnu gan geffyl ar hyd ‘cilffordd gyfyngedig’ ond ni fedrwyd fynd â beic modur neu gerbydau modur eraill ar ei hyd. Gall hefyd fod hawl i yrru anifeiliaid ar hyd ‘cilffordd gyfyngedig’.

Daeth y rhan berthnasol o’r Ddeddf i rym ar y 11eg Mai 2006 ac felly nid oes unrhyw RUPP’s yn parhau ar y Map Swyddogol - mae bob un yn awr yn ‘gilffordd gyfyngedig’.



## Cilffyrdd sy'n agored i bob traffig (BOATs')

Cyflwynwyd y term yna gan Ddeddf Cefn Gwlad 1968 ac mae'n cyfeirio at rai cerbydlonydd penodol (h.y. llwybrau sydd ar gael i gerbydau) a ddefnyddir yn bennaf i'r dibenion y defnyddir llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffyl h.y. cerdded a marchogaeth. Mae aelodau'r cyhoedd yn mwynhau'r un hawliau ar y rhain (BOAT's) fel ac ydynt ar ffordd gyhoeddus arferol ond fel arfer ni ddylent ddisgwyl i'r llwybr fod ag arwyneb wedi ei selio (tarmac).

Yng Ngwynedd, polisi'r Cyngor yw ychwanegu malurion tar a dresin wyneb i BOAT's a ddefnyddir yn arw (fel arfer mewn ardaloedd 'trefol') ac wedi hynny byddant yn cael eu harchwilio a'u cynnal fel rhan o rwydwaith y ffordd. Mae pob un o'r mathau yma o hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu dangos ar y Map Swyddogol - y cofnod cyfreithiol i lwybrau o'r fath sy'n cael ei gadw gan y Cyngor.

Dalier sylw bod pob hawl tramwy cyhoeddus yn briffordd. Felly, bydd unrhyw gerbydau sy'n cael eu gyrru arnynt yn cael eu gyrru yn gyfrifol ac mae'n rhaid i'r cerbyd ei hun fod yn gyfreithlon ar y ffordd gyda gyrrwr cymwys, yswiriant, treth ffordd a thystysgrif MOT.